Cyngor Abertawe Swansea Council

# PROFFIL ECONOMAIDD ABERTAWE: IONAWR 2025

Mae Proffil Economaidd Abertawe yn darparu trosolwg ystadegol o farchnad lafur ac economi Abertawe ac mae'n cynnwys data a gyhoeddwyd yn ddiweddar o amrywiaeth o ffynonellau cenedlaethol swyddogol. Mae'n cynnwys y setiau data allweddol sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol ac yn awgrymu sut mae Abertawe yn cymharu â Chymru a'r DU neu Brydain. Fodd bynnag, bydd y dangosyddion a gynhwysir yn adlewyrchu dyddiadau a chyfnodau amser gwahanol.

Mae'r wybodaeth hon, sy'n cael ei diweddaru wrth i ddata newydd ddod i law, yn anelu at gyflwyno darlun cyffredinol o strwythur a pherfformiad yr economi leol gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael. Mae pob adroddiad hefyd yn amlinellu tueddiadau fel sy'n briodol, yn gyffredinol dros un flwyddyn ond hefyd yn y tymor hwy.

Mae tabl 1 yn darparu crynodeb cyffredinol o'r dangosyddion allweddol a ddefnyddiwyd yn y proffil, sef y gwerthoedd diweddaraf ar gyfer Abertawe, Cymru a'r DU neu Brydain; y gwerthoedd wedi'u mynegeio yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol (lle bo'n berthnasol); a'r newid canrannol blynyddol. Mae mwy o fanylion yn yr adrannau unigol.

**Tabl 1: Dangosyddion economaidd a'r farchnad lafur allweddol**

| *Dangosydd* | *Ardal* | ***Gwerth diweddaraf*** | ***Mynegai*** *(DU = 100)* | ***Newid % blynyddol*** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Gweithgarwch Economaidd** (oed gweithio, cyfnod hyd at Medi-24) | **Abertawe** | **74.2%** | **95** | **-4.2%** |
| | Cymru | 75.1% | 96 | -2.1% |
| | Y DU | 78.4% | 100 | +0.0% |
| **Cyfradd cyflogaeth** (oed gweithio, cyfnod hyd at Medi-24) | **Abertawe** | **72.3%** | **96** | **-2.1%** |
| | Cymru | 72.9% | 97 | -1.1% |
| | Y DU | 75.4% | 100 | +0.1% |
| **Gweithwyr** (amcangyfrifon gweithleoedd, 2023) | **Abertawe** | **108,000** | n/a | **0.0%** |
| | Cymru | 1,300,000 | | +1.8% |
| | Prydain | 31,358,000 | | +1.4% |
| **Cyfradd Diweithdra** (wedi'i modelu, cyfnod hyd at Medi-24) | **Abertawe** | **3.1%** | **84** | **-28.8%** |
| | Cymru | 2.9% | 78 | -25.9% |
| | Y DU | 3.7% | 100 | -0.3% |
| **Stociau busnes** (busnesau gweithredol, 2023) | **Abertawe** | **7,290** | n/a | **-1.4%** |
| | Cymru | 102,215 | | -2.2% |
| | Y DU | 2,870,295 | | -1.9% |
| **GYC** y pen (2022) – Gwerth Ychwanegol Crynswth | **Abertawe** | **£23,929** | **73** | **+3.5%** |
| | Cymru | £23,804 | 72 | +8.6% |
| | Y DU | £32,996 | 100 | +8.8% |
| **GDHI** y pen (2022) – Incwm Gwario Gros Aelwydydd | **Abertawe** | **£17,978** | **79** | **+2.2%** |
| | Cymru | £18,652 | 82 | +3.5% |
| | Y DU | £22,789 | 100 | +5.3% |
| **Enillion** (wythnosol gros amser llawn, 2024) | **Abertawe** | **£670.60** | **92** | **+4.3%** |
| | Cymru | £684.40 | 94 | +6.4% |
| | Y DU | £728.30 | 100 | +6.0% |
| **Prisiau tai** (pris gwerthu cyfartalog, Tach-24) | **Abertawe** | **£206,767** | **71** | **+4.1%** |
| | Cymru | £219,446 | 76 | +3.0% |
| | Y DU | £289,707 | 100 | +3.3% |
| **Trafodion tai** (y chwarter a ddaeth i ben Awst-24) | **Abertawe** | **577** | n/a | **-16.3%** |
| | Cymru | 7,780 | | -15.6% |
| | Y DU | 176,531 | | -15.4% |

**Nodiadau**:
i. Mae'r ffigurau 'newid % blynyddol' ar gyfer cyfradd gweithgarwch economaidd, cyfradd cyflogaeth a chyfradd diweithdra yn cyfeirio at newidiadau dros y cyfnod yn niferoedd y rheini sy'n weithgar yn economaidd, yn gyflogedig ac yn ddi-waith, yn hytrach na newidiadau yn y cyfraddau.
ii. Gan nad oes modd cymharu'r ffigurau cenedlaethol a lleol ar gyfer gweithwyr, trafodion stociau busnes a thai yn uniongyrchol, ni ddarperir gwerthoedd mynegai (lle mae'r DU = 100).

## 1. STRWYTHUR Y GWEITHLU A GWEITHGARWCH ECONOMAIDD

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am strwythur gweithlu Abertawe, gan ddefnyddio data o Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), yn awgrymu bod gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth yn Abertawe'n agos at gyfartaleddau Cymru ond yn is na chyfartaleddau'r DU. Mae'r nifer cymharol fawr o fyfyrwyr sy'n byw yn Abertawe hefyd yn cael rhywfaint o effaith ar yr ystadegau lleol.

Fel prif ganolfan fasnachol De-orllewin Cymru, mae gan Abertawe ganrannau uwch o gyflogaeth yn y sectorau gwasanaeth a chyflogaeth gweithgynhyrchu is cyfatebol. Mae yna hefyd gyfrannau uwch o bobl yn gweithio'n rhan-amser a llai o bobl hunangyflogedig.

**Tabl 2: Strwythur y Gweithlu - mesurau allweddol**

| *Ardal* | **Poblogaeth 16 oed ac yn hŷn** | **Oedran Gweithio** (pob un yn 16-64 oed) | **Gweithgar yn economaidd** (16 oed ac yn hŷn) | **Cyfradd Gweithgarwch Economaidd** (oedran gweithio) |
|---|---|---|---|---|
| **Abertawe:** Cyfanswm | **206,200** | **157,400** | **120,300** | **74.2%** |
| Dynion | 103,600 | 81,500 | 63,100 | 75.0% |
| Menywod | 102,500 | 75,800 | 57,300 | 73.4% |
| **Cymru** | 2,588,300 | 1,927,200 | 1,508,600 | **75.1%** |
| **Y DU** | 54,238,800 | 41,799,200 | 34,206,700 | **78.4%** |

| *Ardal* | **Cyflogaeth** (16 oed ac yn hŷn) | **Cyfradd Cyflogaeth** (oedran gweithio) | **Anweithgar yn Economaidd** (oedran gweithio) | **Cyfradd Anweithgarwch Economaidd** (oedran gweithio) |
|---|---|---|---|---|
| **Abertawe:** Cyfanswm | **117,100** | **72.3%** | **40,600** | **25.8%** |
| Dynion | 60,600 | 72.3% | 20,400 | 25.0% |
| Menywod | 56,400 | 72.2% | 20,200 | 26.6% |
| **Cymru** | 1,465,200 | **72.9%** | 480,600 | **24.9%** |
| **Y DU** | 32,948,800 | **75.4%** | 9,042,600 | **21.6%** |

| *Ardal* | **Diweithdra** (16 oed ac yn hŷn) | **Cyfradd diweithdra** (gweithgar yn econ. 16+ oed) | **Hunangyflogedig** (16 oed ac yn hŷn) | **% hunangyflogedig** (o'r holl rai a gyflogir) |
|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | **3,300** | **2.7%** | **9,500** | **8.1%** |
| **Cymru** | 43,300 | **2.9%** | 178,500 | **12.2%** |
| **Y DU** | 1,257,900 | **3.7%** | 4,365,300 | **13.2%** |

| *Ardal* | **Gweithio'n rhan-amser** (oedran gweithio) | **% sy'n gweithio rhan-amser** (o oedran gweithio, cyflogedig) | **% sy'n gweithio ym maes gweithgynhyrchu** (o'r holl rai a gyflogir) | **% sy'n gweithio mewn gwasanaethau (cyfanswm)** (o'r holl rai a gyflogir) |
|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | **33,900** | **29.9%** | **6.3%** (7,400) | **85.7%** (100,300) |
| **Cymru** | 358,100 | **25.5%** | **9.3%** | **80.2%** |
| **Y DU** | 7,289,600 | **23.1%** | **8.1%** | **82.4%** |

*Ffynhonnell: Data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) ar gyfer y cyfnod 12-mis a ddaeth i ben yn mis Medi 2024. SYG.*

**Nodiadau**:

i. Arolwg sampl o aelwydydd sy'n byw mewn cyfeiriadau preifat yn y DU yw'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB). Mae'r arolwg yn ceisio gwybodaeth am amgylchiadau personol ymatebwyr a'u statws yn y farchnad lafur yn ystod cyfnod cyfeirio penodol, sef un neu bedair wythnos fel arfer (gan ddibynnu ar y pwnc) cyn y cyfweliad. Fel arolwg o aelwydydd, mae ffigurau'r APB yn ymwneud yn bennaf â lle mae pobl yn byw, er bod rhywfaint o ddata sy'n seiliedig ar weithleoedd.

ii. Mae'r APB yn cyfuno'r samplau ychwanegol o Arolwg y Gweithlu (LFS) ac mae'n darparu data treigl ar y farchnad lafur ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU a hefyd ar gyfer ardaloedd lleol dros y pedwar chwarter.

iii. Cyhoeddir yr APB yn chwarterol, am gyfnod o 12-mis, ac mae fel arfer ar gael tua 3½ mis ar ôl diwedd cyfnod cyfeirio'r arolwg. Cyhoeddwyd y data uchod gan SYG ar 21 Ionawr 2025.

iv. Gan fod amcangyfrifon yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth yn seiliedig ar samplau ystadegol, maent yn agored i amrywioldeb samplu, sy'n cynyddu ar lefelau lleol. Mae'r ystadegau hyn yn cael eu labelu gan y SYG ar hyn o bryd fel "ystadegau swyddogol i'w datblygu" nes eu bod yn cael eu hadolygu ymhellach.

v. Mae'r SYG wedi gweld cyfraddau ymateb yn gostwng ar gyfer arolygon aelwydydd, a ddaeth yn fwy acíwt ar gyfer yr LFS a data cysylltiedig a gasglwyd o fis Awst 2023. Mae'r SYG hefyd yn parhau i drosglwyddo i'r Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid (TLFS), sydd eisoes ar waith ac a fydd yn dod yn brif ffynhonnell ar gyfer eu rhyddhad o ystadegau'r farchnad lafur maes o law.

vi. Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO), un o asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, sy'n cytuno ar y cysyniadau a'r diffiniadau a ddefnyddir.

vii. Mae'r cyfanswm a'r gyfradd diweithdra a ddangosir uchod yn defnyddio diffiniad yr ILO, h.y. pobl heb swydd a oedd ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos yn dilyn eu cyfweliad APB ac a oedd naill ai wedi chwilio am waith yn y pedair wythnos cyn y cyfweliad neu'n aros i ddechrau swydd yr oeddent eisoes wedi'i chael. Mynegir y gyfradd ddiweithdra fel cyfran y boblogaeth 16 oed ac yn hŷn sy'n weithgar yn economaidd.
viii. Y prif fesur 'pennawd' lleol o ddiweithdra yw'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel (gweler adran 2). Mae'r rhain yn gwella ar amcangyfrifon diweithdra'r APB ar gyfer awdurdodau lleol drwy fenthyca cryfder y mesur hawlwyr budd-daliadau.
ix. Mae SYG yn diffinio'r boblogaeth oedran gweithio fel pawb rhwng 16 a 64 yn gynwysedig.

## 2. CYFLOGAETH

### Cyflogaeth yn ôl diwydiant

Mae amcangyfrifon cyflogaeth yn y gweithle ar gael drwy'r Gofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES), sef arolwg busnes blynyddol a gynhelir gan SYG sy'n casglu gwybodaeth am gyflogaeth. Mae data BRES ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y blynyddoedd 2009 i 2022.

Mae gan economi Abertawe gyfran fawr o weithwyr yn ôl cyfran yn y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd, addysg, gwasanaethau ariannol a manwerthu. O'r 108,000 o weithwyr yn Abertawe (2023), amcangyfrifir bod 88.9% (96,000) wedi'u cyflogi yn y sectorau gwasanaeth (SICs G-U yn y tabl isod), gyda 30.4% (32,800) yn gweithio o fewn y sector cyhoeddus. Yng Nghymru, mae cyfran y gweithwyr yn y sectorau gwasanaeth yn is, sef 81.7%, gyda 25.6% yn y sector cyhoeddus. Mae'r sectorau gweithgynhyrchu ac adeiladu yn Abertawe'n cyflogi cyfanswm o 11,000 o bobl yn fras, gyda chyfran y gweithwyr gweithgynhyrchu islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr.

**Tabl 3: Gweithwyr (amcangyfrifon yn seiliedig ar weithleoedd)**

| **Grŵp Diwydiant Cyffredinol** (SIC 2007) (data 'mynediad agored') | **Abertawe** (cyfanswm) | **Abertawe** (%) | **Cymru (%)** | **Prydain (%)** |
|---|---|---|---|---|
| 1: Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota (adran A) | 250 | 0.2 | 1.1 | 0.7 |
| 2: Mwyngloddio, chwarela a chyfleustodau (B, D ac E) | 1,250 | 1.2 | 1.5 | 1.2 |
| 3: Gweithgynhyrchu (C) | 5,000 | 4.6 | 10.7 | 7.5 |
| 4: Adeiladu (F) | 6,000 | 5.6 | 5.1 | 4.8 |
| 5: Masnachau Moduro (Rhan G) | 2,250 | 2.1 | 1.5 | 1.7 |
| 6: Cyfanwerthu (Rhan G) | 2,500 | 2.3 | 2.3 | 3.7 |
| 7: Manwerthu (Rhan G) | 10,000 | 9.3 | 8.8 | 8.3 |
| 8: Trafnidiaeth a storio (gan gynnwys post) (H) | 3,000 | 2.8 | 3.2 | 5.0 |
| 9: Gwasanaethau llety a bwyd (I) | 9,000 | 8.3 | 8.7 | 7.9 |
| 10: Gwybodaeth a chyfathrebu (J) | 2,000 | 1.9 | 2.3 | 4.5 |
| 11: Ariannol ac yswiriant (K) | 4,000 | 3.7 | 2.5 | 3.4 |
| 12: Eiddo (L) | 1,500 | 1.4 | 1.4 | 1.9 |
| 13: Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (M) | 4,500 | 4.2 | 5.0 | 9.2 |
| 14: Gwasanaethau cymorth a gweinyddu busnes (N) | 10,000 | 9.3 | 7.3 | 8.7 |
| 15: Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (O) | 13,000 | 12.0 | 8.6 | 4.7 |
| 16: Addysg (P) | 11,000 | 10.2 | 8.8 | 8.5 |
| 17: Iechyd (Q) | 19,000 | 17.6 | 17.1 | 13.9 |
| 18: Celfyddydau, adloniant, hamdden gwasanaethau eraill (R-U) | 4,500 | 4.2 | 4.2 | 4.5 |
| **CYFANSWM** | **108,000** | **100.0** | 100 | 100 |

***Ffynhonnell**: Dadansoddiad o gyflogaeth yn y gweithle Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth y DU (BRES), 2023. SYG.*

**Nodiadau**:
i. Mae'r Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES) yn darparu data ar nifer y gweithwyr yn y DU yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, sy'n gweithio amser llawn a rhan-amser, ar lefelau diwydiannol a daearyddol manwl. Fe'i hystyrir yn ffynhonnell ddiamod ystadegau swyddogol am weithwyr yn ôl diwydiant, gan ddefnyddio'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2007.
ii. Ar gyfer arolwg 2023, samplwyd rhyw 85,000 o fusnesau ym Mhrydain Fawr, o Gofrestr Busnesau Rhyngadrannol (IDBR) yr SYG – y brif ffrâm samplu a ddefnyddir ar gyfer arolygon busnes yr SYG. Y gyfradd ymateb oedd 83.3%.
iii. Cyhoeddwyd data BRES ar gyfer 2023 ar 4 Tachwedd 2024. Mae'r data cychwynnol yn ddata dros dro, ac fe'i cyhoeddir fel arfer 12 mis ar ôl cyfnod cyfeirio'r arolwg, gyda'r canlyniadau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar ôl 24 mis.
iv. Mae diffyg parhad yn nata BRES o 2015, o ganlyniad i gynnwys busnesau sy'n seiliedig ar PAYE yn unig.
v. Nid yw amcangyfrifon cyflogaeth y sector cyhoeddus (a phreifat) wedi'u diffinio ar sail SICau yn unig. Yn yr arolwg hwn, diffinnir pob busnes neu sefydliad fel un sydd yn y sector cyhoeddus neu breifat, yn hytrach na chan ei gôd SIC.

vi. Mae'n bosib na fydd y cyfansymiau'n symio oherwydd talgrynnu. Mae'r tabl uchod yn cynnwys ffigurau o set ddata 'mynediad agored' y BRES.

Mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod cyfanswm y gweithwyr yn Abertawe wedi aros yn ddigyfnewid rhwng 2022 a 2023, wrth i'r cyfanswm gynyddu yng Nghymru (+1.8%) a PF (+1.4%). Gostyngodd nifer y gweithwyr yn y sector gwasanaeth (SICs G-U) ychydig dros y flwyddyn, ac amcangyfrifwyd codiadau yn y grwpiau 'Iechyd' a 'Gweinyddu Busnes', wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiadau yn y grwpiau 'Celfyddydau' a Proffesiynol'. Dros gyfnod hwy (2018-2023), gostyngodd cyfanswm y gweithwyr yn Abertawe 1,500 (1.4%); wrth i'r cyfansymiau cyfwerth gynyddu yng Nghymru (+2.4%) a PF (+5.5%). Eto, mae gwahaniaethau o ran y sectorau yn y newidiadau tymor hwy hyn, gyda'r twf amcangyfrifedig mwyaf yn Abertawe yn y grwpiau 'Adeiladu' a Gweinyddiaeth Gyhoeddus', a'r gostyngiad mwyaf yn y grwpiau 'Ariannol ac yswiriant'.

## Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth

Mae dadansoddi cyflogaeth yn ôl galwedigaeth gan ddefnyddio'r amcangyfrifon diweddaraf sy'n seiliedig ar breswylfa o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn tueddu i atgyfnerthu rôl Abertawe fel canolfan gwasanaeth rhanbarthol, gyda chyfrannau uwch (na Chymru) wedi'u cyflogi mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r sector gwasanaeth, gan gynnwys galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol a gweinyddol/ysgrifenyddol. Mae'r data cyfatebol ar gyfer y gweithle yn Abertawe yn dangos amrywiad gyda ffigurau sy'n seiliedig ar breswylfeydd mewn rhai categorïau ond patrwm cyffredinol tebyg ar y cyfan.

**Tabl 4: Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth**

| **Preswylwyr mewn cyflogaeth sy'n:** (Prif Grŵp SOC 2020) | **Abertawe** (Cyfanswm) | **Abertawe %** | **Cymru %** | **Y DU %** | ***Abertawe*** *(gweithle %)* |
|---|---|---|---|---|---|
| 1: Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch-swyddogion | 10,200 | 8.7 | 9.4 | 11.0 | *(8.0)* |
| 2: Galwedigaethau proffesiynol | 26,400 | 22.6 | 23.2 | 26.7 | *(20.0)* |
| 3: Gweithwyr Cyswllt Proffesiynol a galwedigaethau technegol | 19,200 | 16.4 | 15.3 | 15.2 | *(16.0)* |
| 4: Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 13,300 | 11.3 | 10.3 | 9.3 | *(12.8)* |
| 5: Galwedigaethau crefftau medrus | 8,600 | 7.3 | 9.6 | 8.7 | *(9.9)* |
| 6: Gofalu, hamdden a galwedigaethau mewn gwasanaethau eraill | 10,400 | 8.9 | 9.1 | 8.4 | *(10.0)* |
| 7: Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 7,900 | 6.8 | 6.9 | 6.1 | *(8.0)* |
| 8: Gweithredwyr canolfannau prosesu a pheiriannau | 8,200 | 7.0 | 6.5 | 5.5 | *(6.7)* |
| 9: Swyddi sylfaenol | 12,900 | 11.1 | 9.5 | 8.8 | *(8.5)* |
| **CYFANSWM** (Prif Grŵp 1-9 SOC 2020) | **117,100** | 100 | 100 | 100 | *(100)* |

***Ffynhonnell**: Data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) ar gyfer y cyfnod o 12-mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024, ONS.*

**Nodiadau**:

i. Arolwg sampl o aelwydydd sy'n byw mewn cyfeiriadau preifat yn y DU yw'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB). Mae'r ffigurau APB hyn yn ymwneud â lle mae pobl yn byw (h.y. amcangyfrifon yn seiliedig ar breswylfeydd), ac eithrio data'r gweithle yn y golofn ar y dde.

ii. Mae Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2020 (SOC 2020) yn cynnwys hierarchaeth o alwedigaethau ar bedair lefel, o'r prif grwpiau uchod i grwpiau uned pedwar-digid mwy penodol.

## Diweithdra

Mae ffigurau diweithdra (y cyfrif gweinyddol a'r cyfrif sy'n seiliedig ar arolwg) yn ddangosyddion o berfformiad y farchnad lafur leol a ddefnyddir yn helaeth. Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ym mis Rhagfyr 2024 – holl hawlwyr y Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), a hawlwyr Credyd Cynhwysol (UC) y mae'n ofynnol iddynt chwilio am waith - a'r amcangyfrifon o ddiweithdra sy'n seiliedig ar fodel (ar gyfer cyfnod yr arolwg a ddaeth i ben ym mis Medi 2024), ynghyd â'r newid diweddar, i'w gweld yn y tabl 5.

**Tabl 5: Diweithdra**

| **Mesur diweithdra:** | **Mis/ cyfnod** | **Abertawe** Cyfanswm *(newid)* | **Abertawe** Cyfradd *(%-n.)* | **Cymru** Cyfradd *(%-n.)* | **Y DU** Cyfradd *(%-n.)* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr hawlwyr (heb ei addasu)** | **Rha-24** | **5,355** | **3.6%** | 3.5% | 4.1% |
| *Newid ar y chwarter (Med-24 – Rha-24)* | | *(-355)* | *(-6.2%)* | *(-3.0%)* | *(-2.2%)* |
| *Newid ar y flwyddyn (Rha-23 – Rha-24)* | | *(+355)* | *(+7.1%)* | *(+7.6%)* | *(+12.1%)* |
| **Diweithdra (amcangyfrif yn seiliedig ar fodel)** | **Med-24** | **3,700** | **3.1%** | 2.9% | 3.7% |
| *Newid ar y flwyddyn (b/g Med-23 – b/g Med-24)* | | *(-1,500)* | *(-28.8%)* | *(-25.9%)* | *(-0.3%)* |

***Ffynhonnell**: Datganiadau ystadegau'r farchnad lafur y SYG (21 Ionawr 2025).*

Yn Abertawe, mae ffigurau nifer yr hawlwyr fesul ward (Rhagfyr 2024) yn dangos bod nifer o ardaloedd lleol yn profi cyfraddau sylweddol uwch na chyfartaledd Abertawe (3.6%); yn arbennig Townhill (7.4%), Y Castell (6.9%), Penderi (6.7%), a Glandŵr (5.5%). Y gyfradd isaf yw Mayals (0.8%).

**Nodiadau**:

i. Mynegir cyfraddau nifer yr hawlwyr fel cyfran o'r preswylwyr oedran gweithio (16-64 oed).
ii. Mae'n ofynnol i fwy o hawlwyr Credyd Cynhwysol chwilio am waith na'r hyn sy'n ofynnol dan reolau'r Lwfans Ceisio Gwaith, sydd wedi cynyddu nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ac effeithio ar ei ddibynadwyedd fel dangosydd economaidd. O ganlyniad i hyn, nid oes gan nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau statws Ystadegau Gwladol mwyach ac fe'i hystyrir fel 'Ystadegyn Swyddogol o dan Ddatblygiad' gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
iii. Mae'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar fodel, yn gwella yn yr amcangyfrifon APB ar gyfer diweithdra awdurdodau lleol trwy fenthyca cryfder o'r mesur nifer yr hawlwyr. Mynegir y cyfraddau diweithdra sy'n seiliedig ar fodel (DM) fel cyfran y boblogaeth 16 oed ac yn hŷn sy'n weithgar yn economaidd. Ni chyhoeddir cyfradd DM y DU felly dangosir cyfradd diweithdra'r APB yn y tabl. Mae cyfansymiau a chyfraddau diweithdra sy'n seiliedig ar arolygon yn agored i amrywioldeb samplu, y mae eu heffaith yn cynyddu'n lleol.
iv. Mae data diweithdra hefyd wedi'i gynnwys yn ein bwletin "**Ystadegau'r Farchnad Lafur**", sydd ar gael yn www.abertawe.gov.uk/economi.
v. Mae ystadegau ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth ac incwm hefyd ar gael.

## 3. DANGOSYDDION MARCHNAD LAFUR YCHWANEGOL (data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol)

### Cymudo

Mae data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn dangos yr integreiddio cryf rhwng marchnad lafur Abertawe a'i hawdurdodau cymdogol – Castell-nedd Port Talbot a Sir Gâr. Mae dadansoddiad o batrymau teithio i'r gwaith yn awgrymu bod y llifoedd trawsffiniol mwyaf arwyddocaol yn digwydd i Abertawe o'r ardaloedd cyfagos hyn. Yn 2023, Abertawe oedd â'r mewnlif net ail uchaf o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru (+9,000), y tu ôl i Gaerdydd yn unig. Mae'r data hefyd yn dangos bod 88% o breswylwyr Abertawe wedi gweithio o fewn ardal yr awdurdod lleol, a Sir Benfro, Caerdydd, Gwynedd a Ceredigion yn unig sydd â ffigur cyfatebol uwch yng Nghymru.

**Tabl 6: Cymudo**

| **Ardal** | Nifer y preswylwyr sy'n gweithio | Nifer sy'n gweithio yn yr ardal | % y preswylwyr sy'n gweithio yn yr ardal breswylio | Cymudo allan o'r ardal | Cymudo i'r ardal | Mewnlif net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | **117,400** | **126,400** | **88%** (103,200) | **14,200** | **23,200** | **+9,000** |
| Castell-nedd PT | 65,100 | 46,800 | 60% (39,300) | 25,800 | 7,500 | -18,300 |
| Sir Gâr | 82,900 | 80,300 | 77% (63,800) | 19,200 | 16,600 | -2,600 |
| *Cymru* | *1,465,100* | *1,414,800* | *97% (1,383,200)* | *81,800* | *31,600* | *-50,200* |

| |
|---|
| *Lle mae preswylwyr Abertawe yn gweithio :* |
| Abertawe = 103,200; Sir Gâr = 6,000; Castell-nedd Port Talbot = 3,900; ardaloedd eraill = 4,300. |
| *Tarddiad y rheini sy'n gweithio yn Abertawe :* |
| Abertawe = 103,200; Castell-nedd Port Talbot = 11,300; Sir Gâr = 9,100; ardaloedd eraill = 2,800. |

***Ffynhonnell:*** *Arolwg Poblogaeth Blynyddol (SYG); Tablau cymudo 2023, Llywodraeth Cymru (Stats Cymru 11 Ebrill 2024).*

**Nodiadau**:

i. Mae'r ystadegau'n darparu amcangyfrifon o gostau cymudo i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn galendr 2023, yn seiliedig ar ddata'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) gan SYG. Gan mai arolwg sampl yw'r APB, mae'r holl amcangyfrifon yn agored i amrywioldeb samplu.
ii. Mae'r ystadegau'n archwilio patrymau cymudo ar gyfer y rheini sydd mewn cyflogaeth. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar brif swydd y person yn unig.

### Cymwysterau

Mae ystadegau ar y cymwysterau uchaf sydd gan bobl o oedran gweithio hefyd ar gael o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Mae data'r arolwg ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023 yn awgrymu bod gan Abertawe gyfran uwch o breswylwyr oedran gweithio gyda chymwysterau hyd at Fframwaith Cymwysterau Rheoledig (FfCRh) lefel 3 ac uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Yn dilyn cyflwyniad diweddar Y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig a newidiadau i gymwysterau yn yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, gellir ond cymharu amcangyfrifon ar gyfer 2023 gyda rhai 2022 ar hyn o bryd.

**Tabl 7: Cymwysterau**

| **Lefel NVQ** | **Abertawe** (cyfanswm) | **Abertawe** (%) | **Cymru (%)** | **Y DU (%)** |
|---|---|---|---|---|
| FfCRh 4 ac uwch | 72,300 | 47.7 | 43.2 | 47.1 |
| FfCRh 3 | 31,000 | 20.5 | 21.5 | 20.6 |
| FfCRh 2 | 28,200 | 18.6 | 20.3 | 18.7 |
| FfCRh 1 | 3,100 | 2.1 | 2.6 | 2.4 |
| Cymwysterau eraill | 4,100 | 2.7 | 3.9 | 4.5 |
| Dim cymwysterau | 12,700 | 8.4 | 8.6 | 6.6 |
| **CYFANSWM** | **151,500** | 100 | 100 | 100 |

***Ffynhonnell****: Data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) ar gyfer y cyfnod 12-mis a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, SYG.*

**Nodiadau**:

i. Mae'r rhain yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar breswylfeydd o'r APB, sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol y boblogaeth oedran gweithio (a ddiffinnir fel pawb sy'n 16-64 oed). Mae'r arolwg yn gofyn i ymatebwyr am y lefel uchaf o gymhwyster a gafwyd.
ii. Mae'r data cymwysterau ar gael ar gyfer blynyddoedd calendr yn unig, ac fe'i diweddarir yn flynyddol. Rhyddhawyd y data hwn ar 16 Ebrill 2024.
iii. Lefel 4 y FfCRh: e.e. HNC/HND, Gradd a chymwysterau gradd lefel uwch neu gyfwerth.
iv. Lefel 3 y FfCRh: e.e. Safon Uwch/UG neu gyfwerth, GNVQ/GSVQ Uwch, Prentisiaeth Grefft.
v. Lefel 2 y FfCRh: e.e. Lefel O/TGAU, graddau A*- C a chymwysterau cyfwerth, GNVQ/GSVQ canolradd.
vi. Lefel 1 y FfCRh: e.e. TGAU < gradd C, TAU < gradd 1 a chymwysterau cyfwerth, lefel sylfaen GNVQ/GSVQ.

## 4. GWEITHGARWCH BUSNES

Mae ystadegau ar nifer y busnesau neu fentrau gweithredol, a 'genedigaethau' a 'marwolaethau' busnes, yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol gan y SYG. Mae'r ystadegau hyn, sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol, yn ganllaw i batrwm gweithgarwch busnes, busnesau sy'n cychwyn ac yn dod i ben yn y flwyddyn gyfeirio, 2023.

Gostyngodd y stoc o fusnesau gweithredol yn Abertawe 1.4% o 7,395 i 7,290 rhwng 2022 a 2023, gyda 830 o enedigaethau busnes wedi'u cofnodi a 780 o farwolaethau yn 2023. Dros y flwyddyn, gostyngodd y stoc o fusnesau hefyd yng Nghymru (2.2%) ac yn y DU (1.9%). Mae ystadegau 'cyfradd geni' a 'chyfradd marwolaethau' busnes ar gyfer 2023 hefyd ar gael, ynghyd â dadansoddiad o stociau busnes gweithredol fesul grŵp diwydiant cyffredinol ar gyfer Abertawe, Cymru a'r DU. Y grwpiau sector a gynrychiolwyd fwyaf yn Abertawe yn 2023 oedd 'Adeiladu' (15.6% o'r stoc busnes), 'Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol' (12.1%) a 'Llety a Bwyd' (10.8%).

**Tabl 8: Stociau a gweithgarwch busnes**

| **Busnesau gweithredol: fesul grŵp diwydiant cyffredinol (2023) / Cyfraddau stoc genedigaethau a marwolaethau (2023)** | **Abertawe** (cyfanswm) | **Abertawe** (%) | **Cymru** (%) | **Y DU** (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchu (gan gynnwys gweithgynhyrchu) | 400 | 5.5 | 6.8 | 5.7 |
| Adeiladu | 1,140 | 15.6 | 15.7 | 14.7 |
| Masnachau Moduron | 305 | 4.2 | 4.1 | 3.1 |
| Cyfanwerthu | 245 | 3.4 | 3.6 | 4.0 |
| Manwerthu | 650 | 8.9 | 9.1 | 8.5 |
| Trafnidiaeth a storio (gan gynnwys post) | 410 | 5.6 | 6.0 | 5.2 |
| Gwasanaethau lletya a bwyd | 785 | 10.8 | 10.6 | 7.1 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 330 | 4.5 | 4.6 | 7.4 |
| Cyllid ac yswiriant | 105 | 1.4 | 1.2 | 1.4 |
| Eiddo | 340 | 4.7 | 3.5 | 4.4 |
| Proffesiynol; gwyddonol a thechnegol | 880 | 12.1 | 12.1 | 16.2 |
| Gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes | 635 | 8.7 | 9.2 | 9.4 |
| Addysg | 120 | 1.6 | 1.5 | 1.7 |
| Iechyd | 350 | 4.8 | 4.5 | 4.2 |
| Celfyddydau; adloniant; hamdden; gwasanaethau eraill | 595 | 8.2 | 7.5 | 7.1 |
| **Stoc o fusnesau gweithredol** (2023) | **7,290** | 100 | 100 | 100 |
| **Genedigaethau Busnes/*Cyfradd Genedigaethau*** (2023) | 830 | *11.4* | *10.3* | *11.0* |
| **Marwolaethau Busnes/*Cyfradd Marwolaethau*** (2023) | 780 | *10.7* | *11.1* | *10.8* |

***Ffynonellau:*** *'Business demography, UK: 2023, SYG. Dadansoddiad yn ôl Grŵp Diwydiant Eang (SIC 2007), Llywodraeth Cymru.*

**Nodiadau**:

i. Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ystadegau demograffeg busnes ar gyfer 2023 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar 18 Tachwedd 2024. Cyhoeddwyd dadansoddiad pellach o ddata 2023 yn ôl grŵp diwydiant gan Lywodraeth Cymru ar 29 Ionawr 2025.
ii. Amcangyfrif bras yn unig yw'r ffigurau o'r nifer go iawn o fusnesau, busnesau newydd a'r rheini a ddaeth i ben mewn ardal. Mae'r diffiniad o fusnes gweithredol yn y datganiad hwn yn seiliedig ar weithgarwch ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.
iii. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar enedigaethau, marwolaethau a busnesau sydd wedi goroesi yn agored i'w diwygio, fel arfer yng nghyhoeddiad y flwyddyn ganlynol.
iv. Mae'r cyfraddau genedigaethau a marwolaethau busnes uchod yn deillio o ganran y stoc yn 2023.
v. Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu yn y man cychwyn, i'r pump agosaf, i atal datgelu.

Er mwyn ei gwneud hi'n bosib cymharu gweithgarwch busnes rhwng ardaloedd lleol, gellir mynegi'r ffigurau stoc fel cyfraddau am bob 10,000 o bobl o oedran gweithio (16-64 oed). Ar y sail hon, gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth swyddogol ar gyfer canol 2023, mae cyfradd stoc busnes bresennol Abertawe sef 471 yn is na chyfradd Cymru (529) a'r DU (670). Yng Nghymru, mae cyfraddau stoc yn amrywio ar hyn o bryd o 348 (Blaenau Gwent) i 773 (Sir Fynwy). Yn 2023, cafwyd 54 o 'enedigaethau' o ran mentrau fesul 10,000 o bobl oedran gweithio

yn Abertawe, sy'n gyfartal â Chymru ond yn is na'r DU (74). Mae ffigur 'marwolaethau' Abertawe, sef 50 i bob 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio, yn is na ffigurau Cymru (58) a'r DU (72).

Mae ystadegau lleol ar gyfraddau goroesi mentrau hefyd wedi'u cyhoeddi yn y datganiad hwn (ar gael am gyfnodau o un i bum mlynedd). Mae'r ffigurau diweddaraf yn adrodd bod y gyfradd oroesi un flwyddyn yn Abertawe (o 2022 i 2023) yn 91.2%, ychydig yn is na'r cyfraddau ar gyfer Cymru (91.8%) a'r DU (92.3%). Mae'r cyfraddau goroesi pum mlynedd yn Abertawe (h.y. ar gyfer mentrau a anwyd yn 2018 ac sy'n dal i weithredu yn 2023) yn 29.7%, sy'n is na'r cyfraddau cyfatebol presennol ar gyfer Cymru (36.6%) a'r DU (39.4%).

## 5. DANGOSYDDION ECONOMAIDD

### GYC (Gwerth Ychwanegol Crynswth)

Mesur o allbwn sy'n debyg i'r cynnyrch mewnwladol crynswth (GDP) yw GYC. Mae "amcangyfrifon cytbwys" is-ranbarthol o Werth Ychwanegol Gros (GYG) i 2022 bellach ar gael, gan gynnwys ar gyfer Abertawe fel ardal ystadegol Lefelau Tiriogaethol Rhyngwladol 3 (ITL3). Mae amcangyfrifon CDG hefyd ar gael ond nid ar sail fynegeiedig (Y DU = 100).

Yn Abertawe, y GYG tybiedig oedd oddeutu £5,800 miliwn yn 2022. Ffigwr GYC y pen Abertawe oedd £23,929; sydd 0.5% yn uwch na chyfartaledd Cymru ond 27.5% yn is na lefel y DU. Fodd bynnag, GYG y pen Abertawe yw'r uchaf o blith yr wyth ardal ITL3 yn ardal ITL2 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd', ond yn is na thair o'r pedair ardal ITL3 yn 'Nwyrain Cymru', gan gynnwys 'Caerdydd a Bro Morgannwg' (£32,076 y pen).

**Tabl 9: GYC (Gwerth Ychwanegol Crynswth)**

| Dangosydd | Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru | Y DU |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth Ychwanegol Crynswth, £miliwn | £5,774 | £40,408 | £74,545 | £2,230,427 |
| Gwerth Ychwanegol Gros y Pen<br>*% y newid ers y flwyddyn flaenorol* | £23,929<br>*+3.5%* | £20,764<br>*+9.2%* | £23,804<br>*+8.6%* | £32,996<br>*+8.8%* |
| Mynegeion GYC y pen (DU = 100) | 72.5 | 62.9 | 72.1 | 100 |


***Ffynhonnell**: Gweithgarwch economaidd rhanbarthol fesul cynnyrch domestig gros, DU: 1998 to 2022' bwletin ystadegol a thablau data, SYG.*

**Nodiadau**:

i. Mae'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn fesur o'r cynnydd yng ngwerth yr economi gan fod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu cynhyrchu. Mae'r datganiad diweddaraf yn darparu 'amcangyfrif cytbwys' – GYC (B) – o GYC rhanbarthol sy'n cydbwyso'r incwm a'r dulliau cynhyrchu i fesur yr economi.
ii. Mae GYC a threthi (namyn cymorthdaliadau) ar gynhyrchion yn gyfwerth â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP).
iii. Mae'r tabl uchod yn mesur GYC a GYC y pen ar brisiau sylfaenol cyfredol ar gyfer 2022. Mae ffigurau GYC 2022 yn rhai dros dro.
iv. Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn gan SYG ar gyfer ardaloedd 'ITL3' ac ardaloedd yr awdurdodau lleol ar 24 Ebrill 2024.
v. Mae'r dosbarthiad ITL yn darparu dadansoddiad unffurf sengl ar gyfer cynhyrchu ystadegau rhanbarthol ar gyfer y DU. Mae Dinas a Sir Abertawe ar ei ben ei hun yn cyfrif fel un o'r wyth ardal ITL3 yn ardal ITL2 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd'. Mae ITL y DU yn disodli system 'NUTS' yr UE gynt, ond heb unrhyw newidiadau cychwynnol i ardaloedd.
vi. Nid yw ffigurau'r DU uchod yn cynnwys 'Extra-Regio' - gweithgarwch economaidd na ellir ei neilltuo i unrhyw ranbarth penodol.
vii. Llunnir amcangyfrifon GYC(B) ar sail gweithle (wedi'u neilltuo i'r lleoliad lle mae'r gweithgarwch economaidd yn digwydd).

Mae'r duedd ddiweddaraf (2021 i 2022) mewn gwerth ychwanegol gros y pen yn nodi cynnydd yn Abertawe o 3.5%, sy'n is na'r cynnydd cyfwerth yng Nghymru (+8.6%) a'r DU (+8.8%). Dros y tymor hwy (2017 i 2022), roedd twf cyffredinol GYG y pen yn Abertawe yn 9.2%, sy'n cymharu â'r cynnydd yng Nghymru (+16.8%) a'r DU (+18.1%).

Yn yr amcangyfrifon hyn, gostyngodd gwerth mynegai GYC y pen Abertawe (lle mae'r DU = 100) ychydig dros y flwyddyn i 2022 o 76.2 i 72.5. Dros y pum mlynedd diwethaf (2017 i 2022), mae gwerthoedd mynegai Abertawe wedi cynyddu yn gyffredinol (o 78.5 yn 2017).



## Incwm Gwario Gros Aelwydydd

Mae'r SYG wedi cyhoeddi amcangyfrifon is-ranbarthol o Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) hyd at 2022. GDHI yw'r swm o arian sydd ar gael gan yr holl unigolion yn y sector aelwydydd i'w wario neu ei arbed ar ôl i fesurau dosbarthu incwm (er enghraifft trethi, cyfraniadau cymdeithasol a budd-daliadau) ddigwydd. Yn gysyniadol mae'n adlewyrchu 'lles materol y sector aelwydydd, a'i nod yw mesur amrywiaeth economaidd a lles cymdeithasol o lefelau rhanbarthol i lefel leol. Er bod GDHI yn werthfawr fel mesur o gyfoeth cymharol rhwng ardaloedd, nid yw'n rhoi unrhyw wybodaeth am batrymau gwario aelwydydd nac unedau teuluol.

Yn 2022, cyfanswm y GDHI ar gyfer awdurdod lleol Abertawe a'r ardal 'ITL3' oedd £4,351miliwn. Ei ffigur GDHI y pen oedd £17,978; sydd 3.6% yn is na chyfartaledd Cymru a 21.2% yn is na lefel y DU. Ffigur GDHI y pen Abertawe yw'r trydydd ar ddeg uchaf o blith y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru; Sir Fynwy yw'r uchaf (£24,081) a Blaenau Gwent yw'r isaf (£15,568).

Mae tueddiadau diweddar yn awgrymu bod ffigur GDHI y pen Abertawe wedi cynyddu 2.2% rhwng 2021 a 2022, sy'n is na chynnydd Cymru a'r DU. Dros y tymor hwy, fodd bynnag (y cyfnod pum mlynedd diweddaraf 2017-2022), mae twf Abertawe o 16.1% yn uwch na Chymru (+14.9%) a'r DU (+15.8%).

**Tabl 10: Incwm Gwario Gros Aelwydydd**

| Dangosydd | Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru | Y DU |
|---|---|---|---|---|
| GDHI, £miliwn | £4,351 | £35,044 | £58,432 | £1,540,631 |
| GDHI, £ y pen<br>*% y newid ar y flwyddyn flaenorol* | £17,978<br>*+2.2%* | £17,991<br>*+3.7%* | £18,652<br>*+3.5%* | £22,789<br>*+5.3%* |
| Mynegeion GDHI y pen (DU = 100) | 78.9 | 78.9 | 81.8 | 100 |

***Ffynhonnell**: 'Regional gross disposable household income, UK: 1997 i 2022' - bwletin ystadegol a thablau data, SYG.*

**Nodiadau**:

i. Mae incwm aelwyd yn cwmpasu'r incwm a dderbynnir gan gartrefi a sefydliadau nid er elw sy'n gwasanaethu aelwydydd.
ii. Mae'r amcangyfrifon hyn yn ymwneud â'r cyfansymiau ar gyfer pob unigolyn yn y sector aelwydydd ar gyfer rhanbarth yn hytrach nag ar gyfer aelwyd gyfartalog neu uned deuluol. Mae amcangyfrifon GDHI y pen yn rhoi gwerthoedd ar gyfer pob unigolyn, nid pob aelwyd.
iii. Mae amcangyfrifon yn seiliedig ar breswylfeydd, gydag incwm unigolion yn cael ei neilltuo i'r rhanbarth lle maent yn byw
iv. Cyhoeddwyd y ffigurau diweddaraf ar gyfer 1997-2022 gan SYG ar 4 Medi 2024. Ffigurau dros dro yw rhai 2022.
v. Y gwerthoedd mynegai yw'r ffigurau cyhoeddedig (y DU namyn Extra-Regio = 100). Nid yw'r ffigwr £ y pen yn y DU yn cynnwys Extra-Regio.

## Enillion

Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau Ac Enillion (ASHE) yn darparu gwybodaeth am lefelau, dosbarthiad a chyfansoddiad enillion a'r oriau a weithiwyd gan weithwyr i lefel awdurdodau lleol. Mae data ar gyfer diwydiannau a galwedigaethau penodol hefyd ar gael ar lefelau daearyddol uwch.

Y ffigwr enillion amser llawn wythnosol canolrifol diweddaraf ar gyfer preswylwyr yn Abertawe yw £670.60 (Ebrill 2024); sydd 2.0% yn is na ffigur Cymru ond 7.9% yn is na chyfartaledd y DU. Yn yr arolwg hwn, mae'r ffigur enillion wythnosol amser llawn seiliedig ar weithleoedd ar gyfer Abertawe sydd wedi'i gyhoeddi yn agos iawn i'r ffigur seiliedig ar breswylwyr.

**Tabl 11: Enillion wythnosol**

| Dangosydd | Abertawe | Abertawe (% o Gymru) | Cymru | Y DU | *Abertawe (Gweithle)* |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr AMSER LLAWN<br>*% y newid ar y flwyddyn flaenorol* | £670.60<br>+4.3% | 98.0<br>- | £684.40<br>+6.4% | £728.30<br>+6.0% | *£670.80*<br>*+8.2%* |
| Gwryw amser llawn | £670.40 | 94.1 | £712.60 | £773.30 | *£672.70* |
| Benyw amser llawn | £670.70 | 103.9 | £645.80 | £671.70 | *£670.70* |
| Gweithwyr RHAN-AMSER | £274.20 | 103.9 | £264.00 | £263.10 | *£275.70* |
| POB gweithiwr cyflogedig | £546.00 | 95.0 | £574.90 | £613.30 | *£527.30* |

***Ffynhonnell**: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), 2024, SYG.*

Dros y cyfnod blwyddyn diweddaraf (Ebrill 2023 i Ebrill 2024), mae amcangyfrifon yr arolwg yn awgrymu bod enillion wythnosol amser llawn yn Abertawe wedi codi 4.3%, sy'n is na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru ac yn y DU.

Mae data enillion blynyddol hefyd ar gael gan ASHE. Mae ffigur amser llawn canolrifol Abertawe (2024) sef £34,682, yn agos iawn at gyfartaledd Cymru, er bod y ddau ffigur isod yn is na chyfartaledd y DU (yn Abertawe o 7.3%). Dros y flwyddyn ddiwethaf, cododd yr enillion amser llawn cyfartalog yn Abertawe 5.3%, sydd ychydig yn is na'r cynnydd cyfwerth a gafwyd yng Nghymru a'r DU.

**Tabl 12: Enillion blynyddol**

| Dangosydd | Abertawe | Abertawe (% o Gymru) | Cymru | Y DU | *Abertawe (Gweithle)* |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr AMSER LLAWN<br>*% y newid ar y flwyddyn flaenorol* | £34,682<br>+5.3% | 99.3<br>- | £34,915<br>+5.9% | £37,430<br>+6.9% | *£34,834*<br>*+9.1%* |
| Gwryw amser llawn | £34,681 | 94.2 | £36,821 | £40,035 | *£34,782* |
| Benyw amser llawn | £34,089 | 106.4 | £32,046 | £34,000 | *£34,834* |
| Gweithwyr RHAN-AMSER | £13,503 | 98.5 | £13,707 | £13,910 | *£14,609* |
| POB gweithiwr cyflogedig | £29,333 | 99.1 | £29,614 | £31,602 | *£29,312* |

***Ffynhonnell**: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), 2024, SYG.*

**Nodiadau**:

i. Cynhelir yr ASHE ym mis Ebrill bob blwyddyn er mwyn cael gwybodaeth am lefelau, dosbarthiad a chyfansoddiad enillion a'r oriau a weithiwyd gan weithwyr. Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf (2024 dros dro) ar 29 Hydref 2024.

ii. Mae ffigurau ASHE ar gael ar sail y preswylwyr a gweithleoedd. Mae'r ffigurau yn y tablau yn rhai sy'n seiliedig ar breswylwyr (h.y. enillion cyfartalog oedolion sy'n byw yn yr ardal) ac eithrio'r golofn 'Abertawe (gweithle)'.

iii. Mae'r prif ystadegau ar gyfer ASHE yn seiliedig ar y canolrif yn hytrach na'r cymedr. Y canolrif yw'r gwerth y mae 50 y cant o weithwyr yn syrthio oddi tano. Dyma'r mesur o enillion cyfartalog a ffefrir gan y SYG gan nad yw gwerthoedd eithafol yn effeithio cymaint arno ac oherwydd y dosbarthiad enillion camarweiniol.

iv. Mae'r wybodaeth a gyflwynir am enillion yn ymwneud â chyflog gros cyn treth, Yswiriant Gwladol neu ddidyniadau eraill, ac nid yw'n cynnwys taliadau mewn nwyddau. Mae'n gyfyngedig i enillion ar gyfer cyfnod tâl yr arolwg (ac eithrio ôl-ddyledion) a oedd yn cynnwys 17 Ebrill 2024.

v. Mae canlyniadau gwreiddiol 2023 wedi'u diwygio gan SYG ar gyfer y datganiad hwn, ac mae newidiadau % blynyddol yn seiliedig ar y data diwygiedig.

vi. Maint y sampl a gyflawnwyd ar gyfer 2024 oedd 173,000 o weithwyr yn y DU, ychydig yn uwch nag yn 2023 (164,000). Effeithiwyd ar gyfraddau casglu data ac ymateb ar gyfer arolygon 2020-22 gan y pandemig Coronafeirws. Oherwydd gwelliannau methodolegol, mae'r SYG yn rhybuddio rhag cymharu 2023 a 2024 â blynyddoedd cynharach.

## Prisiau a Gwerthiannau Tai

Er bod nifer o arolygon rheolaidd o brisiau tai yn cael eu cynnal gan y prif ddarparwyr morgeisi ac ymgyngoriaethau eiddo, mae data mynegai prisiau tai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol/y Gofrestrfa Tir (HPI) yn cofnodi'r holl eiddo preswyl a brynwyd am bris y farchnad yn y DU (ac ardaloedd lleol), ac fel arfer caiff ei ddiweddaru'n fisol.

Mae ffigurau diweddar (wedi'u haddasu'n dymhorol) ar gyfer Tachwedd 2024 yn nodi mai'r pris gwerthu cyfartalog yn Abertawe yw £206,767; sydd 5.8% yn is na chyfartaledd Cymru a 28.6% yn is na ffigur y DU. Mae'r data hwn, gan gynnwys y newid diweddar a'r pris cyfartalog yn ôl y math o eiddo, wedi'i grynhoi yn Nhabl 13.

**Tabl 13: Prisiau tai**

| Prisiau tai yn ôl math o eiddo | Abertawe | Mynegai (Ion 2015 = 100) | Cymru | Y DU |
|---|---|---|---|---|
| **Pris cyfartalog, pob math o dŷ** | £206,767 | 157.9 | £219,446 | £289,707 |
| *newid chwarterol (%)*<br>*newid blynyddol (%)*<br>*newid 3 blynedd (%)* | *+£3,574 (+1.8%)*<br>*+£8,155 (+4.1%)*<br>*+£21,423 (+11.6%)* | *+2.7 %-pwyntiau*<br>*+6.2 %-pwy*<br>*+6.3 %-pwy* | *(-1.2%)*<br>*(+3.0%)*<br>*(+11.4%)* | *(-1.0%)*<br>*(+3.3%)*<br>*(+9.4%)* |
| **Ar Wahân** | £318,928 | | £322,303 | £436,949 |
| **Pâr** | £215,415 | | £215,250 | £283,546 |
| **Teras** | £171,355 | | £174,623 | £242,598 |
| **Fflat/fflat deulawr** | £122,795 | | £142,261 | £233,230 |

***Ffynhonnell**: Mynegai Prisiau Tai (MPT) Tachwedd 2024, "Prisiau Rhent Preifat a Thai, DU", cyhoeddiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol.*

**Nodiadau**:

i. Disodlodd Mynegai Prisiau Tai y DU (HPI) y mynegeion prisiau tai blaenorol a gyhoeddwyd ar wahân gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Gofrestrfa Tir ac asiantaethau cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyhoeddwyd y data hwn ar 15 Ionawr 2025.

ii. Cyhoeddwyd HPI y DU yn wreiddiol fel ystadegyn swyddogol arbrofol ond mae bellach wedi'i ddynodi'n Ystadegyn Cenedlaethol.


iii. Mae'r mynegai'n cymhwyso dull ystadegol, a elwir yn fodel atchwel hedonig, i'r ffynonellau data amrywiol ar bris a phriodoleddau eiddo i gynhyrchu amcangyfrifon o'r newid mewn prisiau tai ym mhob cyfnod. Cyfrifir y pris cyfartalog safonol ar gyfer tai drwy gymryd y pris cyfartalog (cymedrig geometrig) ym mis Ionawr 2015 ac yna'i ail-gyfrifo'n unol â newid yn y mynegai yn ôl mewn amser ac ymlaen hyd heddiw.

iv. Mae oediad amser o rhwng 2 wythnos a 2 fis rhwng gwerthu eiddo a chofrestru gwybodaeth wedi hynny. O ganlyniad, bydd data HPI y DU ar gyfer y ddau fis mwyaf diweddar yn destun diwygio.

v. Mae data lleol am brisiau rhent preifat cyffredinol a chwyddiant hefyd ar gael gan y SYG drwy'r Mynegai Prisiau Rhent Preifat.

Dangosir tueddiadau prisiau tai cyfartalog yn Abertawe dros y tair blynedd diwethaf yn y graff llinell (Ffigur 2), gyda thueddiadau cyfatebol Cymru a'r DU. Mae'r graff yn dangos bod prisiau wedi codi'n gyson yn ystod 2022, ond maent wedi bod yn gymharol wastad yn gyffredinol ers hynny. Mae'r bylchau mewn prisiau cyfartalog rhwng Abertawe, Cymru a'r DU wedi aros yn gymharol gyson yn ddiweddar.

**Ffigur 2: Tueddiadau prisiau tai, y tair blynedd diwethaf**




Gellir cael rhagor o arwyddion o weithgarwch yn y farchnad dai leol a chenedlaethol o'r data ar nifer y trafodion neu'r gwerthiannau a gwblhawyd. Mae Tabl 14 yn dangos y ffigurau ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis August 2024 ar gyfer Abertawe, Cymru a'r DU a'r newid dros un a dwy flynedd. Mae nifer y gwerthiannau, yn genedlaethol ac yn lleol, wedi gostwng ers 2022.

**Tabl 14: Gwerthiannau Tai**

| Trafodion: cyfanswm | Abertawe | Cymru | Y DU |
|---|---|---|---|
| Chwarter i fis Awst 2024 | 577 | 7,780 | 176,531 |
| *newid blynyddol (%)* | *-112 (-16.3%)* | *(-15.6%)* | *(-15.4%)* |
| *newid 2 flynedd (%)* | *-277 (-32.4%)* | *(-35.5%)* | *(-35.5%)* |

***Ffynhonnell**: Data Mynegai Prisiau Tai (MPT) hyd at fis Awst 2024 (cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025), SYG.*

---

I gael rhagor o wybodaeth ystadegol am farchnad lafur ac economi Abertawe, cysylltwch â:


**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil a SGD**

E-bost: ymchwil@abertawe.gov.uk. Gwefan: www.abertawe.gov.uk/economi

Uned Cyflwyno Strategol, Gwasanaethau Corfforaethol, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.